**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO SJR(2)-01-06(p.6)**

**Dyddiad:** Dydd Iau 12 Ionawr 2006
**Lleoliad:** Ystafell Pwyllgor 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Tai Ar Gyfer Pobl Hŷn: Diweddariad ar Weithredu Argymhellion

## 1.0 Diben

1.1 Fel y nodwyd yn fy adroddiad i'r Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2004, addewais eich hysbysu am y cynnydd ar weithredu argymhellion yr adolygiad polisi pwysig hwn. Cyflwynwyd adolygiad interim o gynnydd i'r Pwyllgor ar 16 Mawrth 2005. Mae'r diweddariad hwn yn cynnig gwerthusiad mwy manwl o ddatblygiadau.

## 2.0 Crynodeb ac Argymhellion

2.1 Mae Atodiad 1 yn disgrifio cynnydd a wnaed ar yr holl argymhellion. Bydd aelodau'n dymuno nodi'r cynnydd.

## 3.0 Y Cefndir

3.1 Lansiwyd Adolygiad Polisi y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar *Tai Ar Gyfer Pobl Hŷn* ar 8 Gorffennaf 2004. Roedd yn cynrychioli'r adolygiad cyntaf o'i fath gan y Pwyllgor ac roedd yn deillio o *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2003.

3.2 Gwnaeth adroddiad yr adolygiad polisi ddau ddeg chwech o argymhellion, a oedd yn draws-sector o ran eu cwmpas ac a oedd yn cynnwys tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Archwiliodd y Pwyllgor nifer o faterion pwysig, gan gynnwys byw'n annibynnol, cyd-ddarpariaeth o wasanaethau, therapi galwedigaethol, tai gwarchod a chynlluniau gofal ychwanegol, yn ogystal â'r cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan y sector gwirfoddol i'r ddarpariaeth o wasanaethau.

3.3 Trafodwyd yr adolygiad mewn cyfarfod llawn ar 29 Medi 2004. Nododd y Datganiad Ysgrifenedig dilynol a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2004 fod bron pob argymhelliad wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'u bod bellach yn cael eu rhoi ar waith.

## 4.0 Ystyriaeth o'r Cynnydd a Wnaed

4.1 Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar weithredu argymhellion adroddiad yr adolygiad polisi o dan gyfarwyddyd y Grŵp Swyddogion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Sefydlwyd y canlynol o ganlyniad i'r adolygiad ac mae ganddo gylch gwaith traws-bynciol amlwg.

4.2 Ymysg y meysydd lle gwnaed y cynnydd mwyaf, mae:

- Cwblhau adolygiad eang ei ystod o grantiau cyfleusterau i’r anabl (argymhelliad 8)
- Cynnydd a wnaed o ran cymhwyso technoleg a theleofal newydd yn ymarferol (argymhelliad 5)
- Cefnogaeth barhaus ar gyfer Gofal ac Atgyweirio (argymhellion 4 a 6)
- Cyflwyno ffrwd cyllido i gefnogi prosiectau arloesol yng nghroestorfan iechyd a thai (argymhelliad 10)
- Cydlynu cynlluniau ar ddiogelwch a defnyddio ynni'n effeithlon (argymhelliad 11)
- Sefydlu asiantaethau benthyg peilot gan gynnwys rhyddhau ecwiti (argymhellion 13 ac 14)
- Comisiynu astudiaeth llinell sylfaen ac adolygiad strategol o dai gwarchod (argymhellion 18 ac 19, yn gysylltiedig ag argymhellion 2 a 3)

4.3 Yn benodol mewn perthynas ag argymhellion 4, 16, 25 a 26, mae Papur Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol wrthi'n cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â llywodraeth leol ac asiantaethau partneriaeth. Disgwylir iddo fod ar gael ar gyfer ymgynghori erbyn mis Ebrill 2006. Bydd y papur yn mynd i'r afael â grwpiau plant ac oedolion a'i nod yw gosod gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Bydd yn canolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol a'i bartneriaethau allweddol ag asiantaethau eraill, yn enwedig tai, a bydd yn ategu *Cynllun Oes*. Yn bwysicach fyth, rhaid i'r papur fynd i'r afael â'r llu o heriau cynaliadwyedd y mae gwasanaethau yn eu hwynebu. Mewn perthynas â phobl ifanc, gan gydnabod newidiadau demograffig, bydd yn dwyn ymlaen argymhellion Adroddiad Strategaeth Gofal Cymru a dymuniad pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r adroddiad yn debygol o ddefnyddio datblygiadau mewn teleofal i ymestyn cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau gofal mewn tai. Bydd y papur yn adlewyrchu'r agenda strategol gyffredinol gyda mwy o bwyslais ar atal a newid patrwm y gwasanaethau i wireddu dymuniad pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a'r angen am ddull cytbwys o reoli anghenion cyffredinol y gymuned, nid cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y mwyaf dibynnol yn unig. Bydd y pwyslais strategol cryfaf yn amlygu rôl allweddol comisiynu a phwysigrwydd rheoli'r farchnad gan fod y mwyafrif o ofal cymdeithasol bellach yn cael ei gyflwyno drwy'r sector annibynnol.

4.4 Rydym yn benderfynol o gynnal y cynnydd a wnaed eisoes yn y meysydd hyn a meysydd eraill, a byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor am ddatblygiadau.

## 5.0 Cydymffurfio

5.1 Nid oes materion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn deillio o ddarparu'r wybodaeth hon.

## 6.0 Goblygiadau Ariannol

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ran yr adroddiad hwn ar hyn o bryd.

## 7.0 Themâu Trawsbynciol

7.1 Fel y nodwyd eisoes, mae natur yr adolygiad polisi a nifer o'r argymhellion a roddwyd yn drawsbynciol o ran cwmpas, yn enwedig iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Mae cyfansoddiad y Grŵp Swyddogion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai yn cynrychioli'r rhyngwyneb hwn.

7.2 Mae gan y Strategaeth Dai Genedlaethol (*Cartrefi Gwell i Bobl Cymru*), ynghyd â chanlyniadau'r Drafodaeth Dai Genedlaethol ar Annibyniaeth ac Anghenion Tai Pobl Hŷn, y potensial o gydweithio'n sydyn â strategaethau cysylltiedig mewn sectorau eraill fel y *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru*, *Cynllun Oes* a'r *Cynllun Gofal* arfaethedig. Bydd y gwaith parhaus ar weithredu adolygiad polisi y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r broses hon.

7.3 Roedd pwyslais cryf ar **gyfle cyfartal** yn yr adolygiad polisi ac mae sawl un o'r argymhellion (yn enwedig y rheiny sy'n delio ag anabledd, teleofal, gofal ychwanegol a gwasanaethau cefnogaeth gymunedol) yn amlygu hyn.

**8.0 Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd**

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a'r camau a gynigir.

**Enw:** **Mrs Edwina Hart**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Swyddog Cyswllt:** **Mr Jeff Childs, Uned y Sector Preifat, Y Gyfarwyddiaeth Dai**
**Ffôn:** **029 2082 5219**